# Y Pwyllgor Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth

## EDT(2) 11-05(p8)

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 28 Medi 2005 |
| **Amser:** | 9.00 – 12.30 |
| **Lleoliad:** | Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol, Bae Caerdydd |
| **Teitl:** | Y Mesur Diogelwch ar y Ffyrdd |

## Diben

1. Hysbysu'r Pwyllgor ynghylch cynnwys y Mesur Diogelwch ar y Ffyrdd ac ynghylch y sefyllfa ddiweddaraf o ran ei gyflwyno.

Crynodeb/Argymhellion

2. Gwahoddir y Pwyllgor i roi sylwadau ar gynnwys y Mesur.

## Y Cefndir

3. Cyflwynwyd y Mesur Diogelwch ar y Ffyrdd gerbron T'r Arglwyddi ar 24 Mai 2005. Fe'i cyflwynwyd gerbron pwyllgor o'r T Cyfan yn Nh'r Arglwyddi ar 27 Mehefin a 4 Gorffennaf. Bwriedir cynnal cyfarfod arall o'r Pwyllgor ar 17 Hydref. Disgwylir i'r Mesur gael ei gyflwyno gerbron T'r Cyffredin yn y Flwyddyn Newydd. Mae'r Mesur a'r Nodiadau Esboniadol ar gael ar wefan y Senedd yn

http://www.publications.parliament.uk/pa/Id200506/Idbills/005/2006005.htm

4. Mae'r Mesur yn becyn o fesurau annibynnol a fydd yn cyfrannu at leihau nifer y bobl a gaiff eu hanafu i wahanol raddau ar ein ffyrdd ac yn cyfrannu at gyflawni targedau hirdymor y Llywodraeth o ran lleihau nifer y bobl a gaiff eu hanafu fel y diffinia Strategaeth Diogelwch ar y Ffyrdd y DU a gyhoeddwyd yn 2003 a Strategaeth Diogelwch ar y Ffyrdd Llywodraeth Cynulliad Cymru a gyhoeddwyd yn 2003.

## Cynnwys

5. Mae'r Mesur yn cynnwys y mesurau canlynol:

## Yfed a Gyrru

- Ei gwneud yn orfodol i droseddwyr difrifol a phobl sy'n troseddu dro ar ôl tro sefyll eu prawf unwaith eto. Byddai hyn yn berthnasol i unrhyw un a waherddir am dros 2 flynedd, er byddai'r bobl sydd wedi yfed a gyrru dro ar ôl tro yn cael eu targedu'n benodol (y mae'n rhaid iddynt fod wedi'u gwahardd am o leiaf 3 blynedd).

- Gwelliannau i'r Cynllun Adsefydlu Pobl sydd wedi Yfed a Gyrru er mwyn annog rhagor o bobl i fanteisio ar gyrsiau ac er mwyn gwella'r trefniadau gweinyddu. Byddai hyn yn cynnwys system ar gyfer talu ffioedd drwy ddulliau hyblyg.

- Dyfeisiau Atal Tanio oherwydd Alcohol. Golyga hyn fod yn rhaid i yrwyr gynnal prawf anadl, ac os nad ydynt yn pasio ni fydd y car yn tanio. Bydd y Mesur yn ei gwneud yn bosibl i arbrofi â'r cynllun am gyfnod fel y gwnaed â chyrsiau Adsefydlu pobl sydd wedi Yfed a Gyrru.

- Newidiadau i'r Cynllun Troseddwyr Risg Uchel sy'n cywiro bylchau mewn deddfwriaeth bresennol.

## Goryrru

- Creu pwyntiau cosb sefydlog raddol am oryrru, o rhwng 2 a 6. Bydd hyn yn ei gwneud yn bosibl i roi gwahanol gosbau sefydlog am wahanol raddau o oryrru. Bydd hefyd yn estyn ystod y pwyntiau cosb o 3-6 pwynt i 2-6 pwynt. Bydd rheoliadau yn cael eu llunio pan fydd manylion ynghylch pob lefel o gosb yn cael eu cyhoeddi a chaiff ymarfer ymgynghori ei gynnal yn eu cylch.

- Cyrsiau ailhyfforddi ar gyfer pobl sy'n goryrru. Byddai'r cyrsiau ar gael i unrhyw un a fyddai'n meddu ar rhwng 7 ac 11 pwynt ar eu trwydded ar ôl cael eu dyfarnu'n euog o oryrru, sef pobl sydd wedi troseddu'n ddifrifol dro ar ôl tro yn bennaf. Byddai cwblhau'r cwrs yn llwyddiannus yn golygu bod y gosb yn cael ei lleihau rhwng 2 a 3 phwynt.

- Gwahardd dyfeisiau sy'n atal ac yn synhwyro camerâu diogelwch. Mae camerâu diogelwch yn agwedd allweddol ar strategaeth diogelwch ar y ffyrdd lwyddiannus. Ceir rheolau caeth ynghylch lleoliadau camerâu er mwyn sicrhau nad ydynt ond yn cael eu lleoli mewn mannau lle ceir risg amlwg ac mewn mannau peryglus i ddefnyddwyr y ffyrdd. Mae'r Mesur yn gwahardd gosod a defnyddio dyfeisio sy'n synhwyro neu'n atal yn uniongyrchol gamerâu diogelwch, yn ogystal â chyfarpar synhwyro cyflymder yr heddlu. Ni fyddai'n gwahardd y dyfeisiau hynny sy'n dibynnu

ar dechnoleg System Lleoli Byd Eang (GPS) sy'n rhybuddio gyrwyr ynghylch safleoedd camerâu hysbys.

- Cosb gynyddol am beidio ag enwi gyrwyr.

- Pwer i ddyfarnu esemptiadau o derfynau cyflymder. Byddai'r esemptiadau yn cael eu defnyddio at ddibenion ac eithrio y rhai sy'n berthnasol i'r frigâd dân, y gwasanaeth ambiwlans, yr Asiantaeth Troseddau Cyfundrefnol Difrifol ac i'r heddlu, lle bo'n briodol. Byddai'n ofynnol i yrwyr cerbydau o'r fath gael eu hyfforddi i yrru cerbydau ar gyflymder uchel.

## Cosbau

- Cynyddu'r ddirwy uchaf am yrru'n ddiofal o lefel 4 (£2,500) i lefel 5 (£5,000) ar y raddfa safonol.

- Gwneud troseddau gyrru heb reolaeth briodol a defnyddio ffôn symudol yn y llaw wrth yrru yn rhai ardystiadwy

- Ei gwneud yn orfodol i bobl sy'n defnyddio cerbyd mewn cyflwr peryglus am yr ail dro neu dro ar ôl tro gael eu gwahardd rhag gyrru

- Gwaredu anghysondeb rhwng cosbau am wahanol droseddau mewn perthynas â'r defnydd o wregysau diogelwch ar gyfer plant

## Cyrsiau ailhyfforddi

- Gwelliannau i gyrsiau Adsefydlu ar gyfer pobl sydd wedi Yfed a Gyrru (gweler Yfed a Gyrru)

- Cyrsiau ailhyfforddi newydd ar gyfer rhai troseddau. Byddai hyn yn galluogi troseddwyr o dan rai amgylchiadau i leihau hyd eu gwaharddiad neu eu pwyntiau cosb drwy gwblhau cwrs ailhyfforddi. Mae'r troseddau y byddai hyn yn gymwys iddynt yn cynnwys gyrru a goryrru'n ddiofal ac heb ystyriaeth briodol. Ni fyddai cyrsiau yn cael eu cynnig fwy nag unwaith mewn cyfnod o 3 blynedd.

- Rhaglenni dyfeisiau atal tanio oherwydd alcohol (gweler Yfed a Gyrru)

## Hyfforddi a phrofi gyrwyr

- Estyn y rheoliadau ynghylch hyfforddiant gyrru i gerbydau modur ac eithrio ceir. Nid yw hyfforddwyr ar gyfer cerbydau o'r fath yn cael eu rheoleiddio ar hyn o bryd. Bydd y Mesur hefyd yn ei gwneud yn bosibl i gynlluniau gael eu teilwra ar gyfer mathau arbennig o gerbydau.

- Moderneiddio'r broses o archebu prawf gyrru. Gallai hyn gynnwys talu drwy gerdyn credyd, archebu, canslo ac aildrefnu yn hyblyg, a threfniadau tebyg i "asiant teithio" ar gyfer ysgolion gyrru.

- Cyhoeddi data perfformiad ynghylch hyfforddwyr gyrru. Byddai hyn yn galluogi pobl i wneud dewisiadau cytbwys heb wahaniaethu'n annheg yn erbyn hyfforddwyr. Caiff y manylion eu pennu'n derfynol ar ôl ymgynghori â hyfforddwyr, ond gallent gynnwys cymwysterau, sgorau mewn profion, ond nid cyfraddau pasio.

## Gyrwyr Tramor

- System newydd o ardystio trwyddedau gyrru. Bydd y Mesur yn ei gwneud yn bosibl i waredu'r drwydded bapur ategol a gwaredu'r system bresennol o roi cosbau sefydlog i yrwyr tramor. Bydd y system newydd yn fwy syml a bydd yn gwaredu anghysondebau yn y ffordd y caiff gyrwyr y DU a gyrwyr tramor eu trin.

- Cynllun blaendal er mwyn sicrhau nad yw gyrwyr nad ydynt yn preswylio yn y DU ac nad oes ganddynt gyfeiriad boddhaol yn y DU yn osgoi cosbau am ystod benodol o droseddau.

- Ei gwneud yn bosibl i ddatgelu data am yrwyr ac am gerbydau i awdurdodau tramor. Bydd hyn yn galluogi'r DVLA a DVL Gogledd Iwerddon i rannu data o'r fath â chymheiriaid tramor, a bydd yn helpu i sicrhau lleihad yn nifer y cerbydau sydd wedi'u dwyn a/neu eu trin yn anghyfreithlon a gaiff eu mewnforio a'u hallforio. Bydd hefyd yn lleihau nifer y gyrwyr sy'n cael eu "gwahardd" mewn gwledydd eraill rhag gyrru yn y DU.

## Cymorth ar gyfer gorfodi

- Gwella diogelwch trwyddedau gyrru. Bydd y Mesur yn golygu y gellir ei gwneud yn orfodol i bobl ildio hen drwyddedau gan dderbyn fersiynau mwy diogel yn eu lle.

- Estyn y gwaith o reoleiddio platiau rhif i'r Alban a Gogledd Iwerddon.

- Ei gwneud yn bosibl i ddatgelu data am yrwyr ac am gerbydau i awdurdodau tramor (gweler gyrwyr tramor)

- Mynd i'r afael â'r drosedd o newid clociau milltiroedd ceir a gwella cywirdeb y gronfa ddata am gerbydau. Bydd y Mesur yn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i'w gwneud yn ofynnol i rai manylion gael eu darparu i'r DVLA. Er enghraifft, gallai fod yn ofynnol hysbysu'r DVLA ynghylch nifer y milltiroedd y mae car wedi'u teithio, er mwyn atal y twyll o newid cloc milltiroedd car.

- Rhoi rhagor o bwerau gorfodi i swyddogion y VOSA. Bydd y Mesur yn galluogi archwilwyr cerbydau y VOSA i ddosbarthu hysbysiadau cosb sefydlog.

## Materion eraill yn ymwneud â diogelwch ar y ffyrdd

- Estyn pwerau ariannu presennol y grant diogelwch ar y ffyrdd i gynnwys awdurdodau lleol.

- Cyflwyno ardaloedd gorffwys peilot ar draffyrdd (yn debyg i "aires" yn Ffrainc) er mwyn helpu i fynd i'r afael â phroblem blinder gyrwyr.

- Sefydlu trefn fonitro effeithiol o gerbydau a addesir i redeg ar danwydd a gedwir o dan bwysedd.

- Gwella'r gwaith gorfodi mewn perthynas â Chludo Deunyddiau Ymbelydrol.

- Diwygio'r diffiniad o gerbyd hurio preifat yn Llundain fel y byddai'n ofynnol trwyddedu pob gwasanaeth cerbyd hurio preifat ac fel y byddai'n ofynnol iddynt basio'r archwiliadau diogelwch perthnasol.

## Darpariaethau i Gymru

6. Mae'r rhan fwyaf o'r Mesur Diogelwch ar y Ffyrdd yn berthnasol yng Nghymru. Dengys yr ystadegau blynyddol diweddaraf am nifer y bobl a anefir ar y ffyrdd y cafodd 201 o bobl eu lladd, y cafodd dros 1300 o bobl eu hanafu'n ddifrifol ac y cafodd dros 12,000 o bobl fân anafiadau yn 2004. Bydd y Mesur yn cyflwyno deddfwriaeth allweddol a fydd yn mynd i'r afael â phroblemau ym meysydd craidd yfed a gyrru, goryrru a hyfforddi a phrofi gyrwyr. Bydd y mesurau yn y Mesur yn cyfrannu at wella diogelwch ar y ffyrdd yng Nghymru a byddant yn helpu i leihau nifer y bobl a gaiff eu hanafu ar ffyrdd Cymru bob dydd.

## Goblygiadau Ariannol

7. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol i Lywodraeth y Cynulliad ar hyn o bryd.

## Themâu Trawsbynciol

8. Mae diogelwch ar y ffyrdd yn allweddol ar gyfer cefnogi datblygu cynaliadwy, mynd i'r afael ag anfantais gymdeithasol a

   bodloni rhwymedigaethau ynghylch cyfle cyfartal.

   Camau i'r Pwyllgor Pwnc eu cymryd

9. Gwahoddir y Pwyllgor i roi sylwadau ar gynnwys y Mesur.

Andrew Davies AC

Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth

Pwynt cyswllt; Meryl James, Is-adran Rheoli'r Rhwydwaith Ffyrdd est 6502